Gair bach Bethlehem 50



www.bethlehem.cymru [Hefyd ar BlueSky @tycwrddbethlehem.bsky.social Gwaelod-y-garth – rhif 50 (o Nadolig 2024 i'r Plygain 2025)

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Y hanner canfed rhifyn ers Covid!

Yn briodol iawn, rydyn ni'n cychwyn gyda chast llawn y ddrama Nadolig "Rwy'n seléb: ma's o 'ma gloi" a llun o Heulwen wedi ei osod yn y canol, gan mai hi oedd yr awdur! Mae rhagor o luniau o'r cast ar y dudalen nesaf a dyma'r linc i chi ail-wylio'r cyfan o'r perfformiad: https://youtu.be/87EMnF4BcSI

Llai o eiriau a mwy o luniau sydd yn y rhifyn hwn – dyna sy'n digwydd pan fo chi'n cyrraedd hanner canfed rhifyn.

Ar y dde fe welwch Delyth yn rhoi'r nodyn agoriadol i aelodau Bethlehem wrth gychwyn y noson o ganu Plygain ar Ionawr 12, 2025. Mae llun arall mwy cyflawn o'r cantorion hyn (a Delyth yn ei phriod le!) ynghyd a'r unigolion a'r partïon Plygain eraill yn y rhifyn hwn. Yn wir mae'r mwyafrif o oedfaon fu dros yr Ŵyl yn cael sylw.

Bore'r ddrama Nadolig

'Rwy'n seléb: ma's o 'ma gloi!'

Bore Sul, 22 Rhagfyr, 2024

Dehongliad Heulwen Jones, cynhyrchydd y cyflwyniad, oedd y cyfuniad annisgwyl seiliedig ar y rhaglen am y "selebs" yn y jyngl ynghyd â'r stori Nadoligaidd fwy cyfarwydd. Dyna oedd ar y llwyfan eleni a dyma luniau o'r sêr o blith yr ieuenctid a phlant yr ysgol Sul. (A'r tro hwn, roedd cân Delwyn Sion yn anghywir – roedd yna sawl seren!) Mae'r sioe i'w gweld yn llawn ar y linc hon: https://youtu.be/87EMnF4BcSI

Pnawn Sul, Rhagfyr 15

Naw llith a charol

Unwaith eto eleni ymunodd Côr CF1 dan arweiniad Eilir gyda'r aelodau mewn oedfa drefnwyd gan Delyth, gyda Peter wrth yr organ. Yma fe welwch yr holl gyfranwyr, ond mae eu clywed gymaint a hynny'n well! Diolch i Wyn a Heulwen, mae'r recordiad ar gael yma: https://youtu.be/p1NkTUBqqO8

Oedfa Bore Nadolig 2024

Dyma'r lleisiau a'r wynebau fu'n rhan o'r Oedfa fer a gynhaliwyd am 10.00 ym Methlehem, ar fore dydd Nadolig.

Cewch flas o'r cyfan eto drwy glicio ar y ddolen hon: https://youtu.be/DTNxhWRZOlg

... a chip cyfyngedig (o un sedd) o tua hanner y gynulleidfa. Ymddiheuriadau i bawb na chafodd eu cynnwys – croeso i chi anfon llun i unioni'r cam y tro nesaf!

Beth am anfon cyfraniad i Rifyn 51 o "Gair bach Bethlehem"?

Ewch ati nawr i baratoi cyfraniad – gair bach neu fwy erbyn Mawrth 10fed, 2025 at:
tycnau@aol.com ***Diolch i bawb.***

Ionawr 12fed 2025

Plygain Bethlehem

(dwy dudalen o luniau)

Unwaith eto eleni, daeth nifer dda o unigolion a phartïon i ganu'r Plygain ym Methlehem. Ar ben y ddalen hon gwelwch barti mawr Bethlehem ei hunan ganodd gyntaf yn yr oedfa. Rhodri-Gwynn oedd yn llywio, fel arfer, ac fe welwch sawl wyneb cyfarwydd ar y ddwy dudalen o luniau. (Mae ambell lun cyfansawdd ymhlith y rhain!)

Mae'r oedfa gyfan ar Youtube: https://youtu.be/jFf4MWLKv9A

Diolch i Delyth am drefnu.





Gair gan Delwyn

"Ma'r teid yn dod mewn a ma'r teid yn mynd ma's!"

Odi wir ! A ma' hynny'n bendant yn wir yr wythnos yma ar lan y môr ym Mhlymouth; sy'n dreiglad a hanner, a chartre i dîm pêl droed Plymouth Argyll. Fe aeth yr hen reolwr Wayne Rooney ma's ar drai, a daeth Mirion Muslic y rheolwr newydd mewn gyda'r llanw. A wir, fe wnaeth Mr. Muslic dipyn o argraff gyda'i araith gyntaf, gan dynnu pawb at ei gilydd a galw am gydweithio a chyd dyheu. Ac mae 'na lanw a thrai tebyg yn mynd i ddigwydd heb fod ymhell o Plymouth arall ymhen rhai dyddiau, sef Plymouth Massachusetts, lle glaniodd y Pilgrim Fathers nôl yn 1620. I'r de o Plymouth Rock ar risiau'r Capitol Hill yn Washington bydd seremoni derbyn Arlywydd rhif 47 America. Bydd Joe Biden yn mynd ma's a bydd Donald J Trump yn dod mewn. Neu a bod yn fanwl gywir, nôl mewn !!!

TRUMP .. enw cyfarwydd iawn bellach, ac yn ôl Geiriadur Rhydychen mae 'na sawl ystyr i'r gair Trump.

1. Carden sy'n uwch ei werth nag eraill…$$$
2. Mantais, sy'n aml yn cynnwys elfen annisgwyl … Iyp !
3. Person i'w edmygu ….mmm!

Mae'n werth cofio hefyd bod "trump" ar lafar yn gallu golygu "torri gwynt", a bod y gair "trumpery" yn golygu "showy but worthless" ... dwi'n dweud dim !!!

Ond dyna ni, Trump yw'r un ma' pobol yr Amerig wedi ei ddewis, ac o leia' fe gawson nhw ddewis, yn wahanol i bobol Rwsia na'th "ddewis" Putin. Ond dyna ni, mae'r hen Vladimir yn perthyn i'r "In Crowd" - Len-in, Stal-in, Put-in ! Ie, unwaith ry' chi "in" yn Rwsia mae'n anodd iawn eich cael chi ma's. Meddylfryd roedd Trump-in wedi trio dilyn ar ddiwedd yr etholiad ddiwethaf os dwi'n cofio'n iawn! Beth bynnag am hynny, mae e' nôl, a mi fydd yn rhoi ei araith swyddogol gyntaf fel yr Arlywydd ddychweledig ddydd Llun. Beth fydd gyda fe i ddweud? Pwy â ŵyr? Ond does dim dwywaith bydd y frawddeg "Make America Great" yn siŵr o godi ei phen.

Ma' sawl araith enwog a phell gyrhaeddol wedi'i llefaru yn Washington, areithiau gan Lincoln, Roosevelt, Kennedy, a falle'r enwocaf ohonyn' nhw i gyd, araith "Mae gen i freuddwyd" Martin Luther King Jr. ac heb fod mor bell yn ôl, araith hanesyddol un o ddilynwyr Dr King, Barack Obama, araith oedd yn cynnwys y frawddeg hon, "mae gwir gryfder ein cenedl yn dod; nid o bŵer ein harfau, neu maint ein cyfoeth, ond o bŵer parhaol ein delfrydau - democratiaeth, rhyddid a gobaith di ildio." Ie, nid o bŵer ein harfau na'n cyfoeth, ond ein delfrydau.

Tynnu pobol at ei gilydd oedd bwriad Obama, cawn weld os taw dyna bwriad Donald J. Ai "Trump Card" annisgwyl fydd yn destun edmygedd sydd ar y gweill, neu arweinydd "showy, worthless" llawn gwynt ? Amser yn unig a ddengys ….. a bydd y byd i gyd yn gwylio …

Delwyn.

Suliau Bethlehem hyd ddiwedd Chwefror (am 10.30 y bore)

Ionawr 2025

26 – Oedfa dan ofal y Parchedig Robert Owen Griffiths

Chwefror 2025

2 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion

9 - Parchedig Dafydd Owen

16 - Oedfa dan ofal aelodau Radur

23 – Marc Jon Williams

HEFYD – Nos Wener, Ionawr 24ain, Cyfarfod Cylch Cadwgan – Eurig Davies: darlith - "Beibl Peter Williams", yn Festri Bethlehem **am 7.00 o'r gloch.**

Dathlu Gŵyl Ddewi

Fore Sul, Mawrth 2ail

OEDFA gan aelodau'r **Ysgol Sul** am 10.30

Newyddion Bethlehem

ANFON EIN COFION

Mae dau o'n haelodau o Radur wedi cael triniaethau'n ddiweddar. Rydyn ni'n dymuno'n dda i **Eirlys Davies** a **Ken Passmore** ac yn cofio atyn nhw.
Yn yr un modd, rydyn ni'n anfon ein cofion at bawb ohonoch sy'n ffaelu mynychu mor aml ag y buoch yn y gorffennol, am ba reswm bynnag. Hyderwn y byddwch yn cryfhau wrth i'r dydd ymestyn a'r Gwanwyn nesáu.
Os oes modd i chi wneud hynny, cofiwch bod nifer dda o'n hoedfaon i'w gweld ar wefan Bethlehem:
www.bethlehem.cymru

Ar y chwith - Gwenllïan a Mei ar ddiwrnod eu priodas yn Nhŷ Cwrdd Bethlehem ddydd Sul 29 Rhagfyr, 2024. Roedd y tywydd yn hynod o garedig a chafwyd diwrnod bendigedig yng nghwmni'r teuluoedd a'r ffrindie lu. Diolch arbennig i Delwyn a Delyth ac i Gôr Caerdydd am eu cyfraniad yn ystod y gwasanaeth. Aethpwyd ymlaen i Portland House ym Mae Caerdydd ar gyfer y wledd, ac i Avoriaz yn Ffrainc i sgïo aeth y pâr priod ar eu mis mêl.

H J

Cyfrannwch i'r rhifyn nesaf!

Dyddiad Cau:
Mawrth 10fed

tycnau@aol.com

Y CWRDD MERCHED

Pilates

Ann Jones

Yn garedig iawn, fe ddaeth Arwel a Sara Ellis Owen i'n cyfarfod mis Ionawr i'n cyflwyno ni i sesiwn syml o 'Bilates'.
Yn ystod y prynhawn, fe bwysleisiwyd y pwysigrwydd o gadw'r corff i symud, fel rydym yn heneiddio, er mwyn cryfhau'r breichiau, y coesau a'r traed. Fe wnaeth pawb eu gorau i wneud yr ymarferion gan gynnwys y rhai heriol ar yr Ap arbennig!
Roedd yn brynhawn diddorol tu hwnt a dwi'n siŵr i bawb fwynhau. Diolch i Sara ac Arwel! Diolch hefyd i'r aelodau o Ferched y Wawr a ddaeth i gefnogi.